## ATODLEN 1

Rheoliad 3(1)

### GWYBODAETH I'W CHYNNWYS YN Y DATGANIAD O DDIBEN

**1.** Nodau ac amcanion yr awdurdod lleol mewn perthynas â'r gwasanaeth mabwysiadu, gan gynnwys achosion sy'n ymwneud â mabwysiadu rhwng gwledydd.

**2.** Y trefniadau y mae'r awdurdod lleol wedi'u rhoi yn eu lle i asesu a gwneud darpariaeth ar gyfer gwasanaethau cymorth mabwysiadu.

**3.** Enw a chyfeiriad y rheolwr.

**4.** Cymwysterau a phrofiad perthnasol y rheolwr.

**5.** Nifer a chymwysterau a phrofiad perthnasol y staff a gyflogir gan yr awdurdod at ddibenion gwasanaeth mabwysiadu'r awdurdod.

**6.** Strwythur trefniadol y gwasanaeth mabwysiadu.

**7.** Y system sydd yn ei lle i fonitro a gwerthuso darpariaeth y gwasanaethau i sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir gan yr awdurdod yn effeithiol a bod ansawdd y gwasanaeth mabwysiadu o safon briodol.

**8.** Y gweithdrefnau ar gyfer recriwtio, paratoi, asesu, cymeradwyo a chefnogi darpar rieni mabwysiadol.

**9.** Manylion y cynghorydd gwasanaeth cefnogi mabwysiadu a'r gweithdrefnau ar gyfer asesu ar gyfer gwasanaethau cefnogi mabwysiadu a'u darparu.

**10.** Crynodeb o'r gweithdrefnau cwynion a sefydlwyd yn unol â Rheoliadau Gweithdrefn Sylwadau (Plant) (Cymru) 2005(**1**), Rheoliadau Gweithdrefn Gwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) 2005 (**2**) ac adran 114 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau 2003(**3**).

**11.** Cyfeiriad a rhif ffôn swyddfa briodol y Cynulliad Cenedlaethol.

(**1**) O.S. 2005/ 3365 (Cy. 262).
(**2**) O.S.2005/ 3366 (Cy.263).
(**3**) 2003 (p.43).